# PROSES COFRESTRU CORFF CORFFORAETHOL

Mae'r busnes yn gorff corfforaethol e.e. cwmni cyfyngedig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. ✔

A yw'r cwmni wedi ei ymgorffori gyda Thŷ'r Cwmnïau?

Ydi

A yw'r cwmni'n defnyddio teitl gwarchodedig yn yr enw masnachu?

Nac ydi

A yw'r cwmni'n defnyddio teitl gwarchodedig yn enw'r cwmni?

Nac ydi

Ydi

Cyflwyno ffurflen gofrestru corff corfforaethol i'r Tîm Cofrestru gan sicrhau bod y cwmni yn cwrdd ag un o'r gofynion cofrestru (mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod).

Nac ydi

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn annog busnesau optegol sy'n gwmnïau cyfyngedig neu'n bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig i gofrestru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ydi

Cael llythyr caniatâd teitl gan y Cyngor Optegol Cyffredinol drwy gyflwyno ffurflen gofrestru corff corfforaethol i'r Tîm Cofrestru gan sicrhau bod y cwmni'n bodloni un o'r gofynion cofrestru (mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod).

Unwaith y bydd wedi ei dderbyn, bydd y Tîm Cofrestru yn gyrru anfoneb am y ffi berthnasol ac yn cadarnhau bod y cwmni'n bodloni un o'r gofynion cofrestru.

Ar ôl iddo gyrraedd, bydd y Tîm Cofrestru yn cadarnhau bod y cwmni'n bodloni un o'r gofynion cofrestru.

Unwaith y bydd y taliad wedi cyrraedd a bod gwiriadau'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi eu cwblhau, bydd y cwmni wedi ei gofrestru ac yn gorfod bodloni [safonau'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer busnesau.]

## Gofynion Cofrestru:

Y gofyniad mwyaf cyffredin mae cwmnïau yn cwrdd ag ef i gofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol yw un o'r canlynol o dan Ddeddf Optegwyr 1989:

**Adran 9(2)(a):** Mae'r rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr (dros 50%) yn optometryddion cofrestredig neu'n optegwyr cyflenwi cofrestredig.

Bydd hyn yn cael ei gadarnhau drwy wirio strwythur y gyfarwyddiaeth yn Nhŷ'r Cwmnïau.

**Adran 9(2)(c):** (i) Mae'r rhan fwyaf o fusnes y ceisydd yn cynnwys gweithgareddau ar wahân i brofi golwg, ffitio a chyflenwi cyfarpar optegol; a (ii) bod cymaint o'i fusnes sy'n cynnwys profi golwg yn cael ei wneud o dan reolaeth optometrydd cofrestredig; a (iii) bod cymaint o'i fusnes sy'n cynnwys gosod a chyflenwi offer optegol yn cael ei wneud dan reolaeth optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig.

Bydd hyn yn cael ei wirio drwy adolygu'r ffurflen "[Cymhwyster o dan Adran 9(2)(c) o'r Deddf Optegwyr 1989]" yn ffurfio ac yn sicrhau:

- Ei fod wedi ei ardystio gan gyfrifydd siartredig, corfforedig neu ardystiedig.
- Rhaid i'r unigolion a restrir ar y cais fel y rhai sy'n gyfrifol am brofi golwg, ffitio a chyflenwi offer optegol fod wedi eu cofrestru'n unigol gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.
- Sicrhau bod "Ffioedd ar gyfer gwaith fel optegwyr offthalmig neu optegwyr sy'n cyflenwi, a derbynebau ar gyfer offer optegol a gynlluniwyd i gywiro, lliniaru neu wella nam ar y golwg, yn cael eu hystyried gyda'i gilydd [yn ddim mwy na] * 49 y cant o gyfanswm derbyniadau'r corff corfforaethol ar gyfer gwerthiant a gwasanaethau yn ystod y flwyddyn."

Gallwch hefyd gofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol os yw eich cwmni'n bodloni un o'r canlynol:

**Adran 9(2)(b):** Cafodd yr ymgeisydd ei gynnwys ar restr offthalmig y gwasanaeth iechyd ar 20.11.1957

**Adran 9(2)(d):** Mae'r ymgeisydd yn Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus ac mae'r profion golwg yn cael eu cynnal dan reolaeth optometrydd cofrestredig ac mae'r gwaith o osod a chyflenwi offer optegol yn cael ei wneud dan reolaeth optometrydd cofrestredig neu optegydd sy'n cyflenwi.

Unwaith y bydd wedi ei gadarnhau, bydd llythyr caniatâd teitl yn cael ei anfon at y cwmni.

Mae'r llythyr caniatâd teitl yn cael ei anfon gan y cwmni at Dŷ'r Cwmnïau a fydd yn ymgorffori'r busnes.

Ar ôl ei ymgorffori, rhowch wybod i'r Cyngor Optegol Cyffredinol a fydd yn rhoi anfoneb am y [ffi berthnasol].

Ar ôl derbyn taliad a chwblhau gwiriadau'r Cyngor Optegol Cyffredinol, bydd y cwmni'n cael ei gofrestru ac yn gorfod bodloni [safonau'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer busnesau].